Y Cwrdd Merched

## Taith i Lanfaches a sefydlu clwb cinio



Criw Cwrdd Merched Bethlehem ym mhulpud Tabernacl, Llanfaches yng nghwmni'r Parch Shem Morgan a fu'n rhoi hanes cynulleidfa'r capel ac olrhain ei hanes diddorol nôl i 1630, adeg sefydlu'r achos yno. Dyma grud Anghydffurfiaeth Cymru ac er mai Saesneg yw iaith yr addoli, cynhelir ambell wasanaeth dwyieithog a chymanfa ganu ddwyieithog yno.

Ar ôl yr orig ddifyr yn y capel bach destlus a glanwaith, sydd ger yr hen ffordd o Gasnewydd i Gas-gwent, nôl i'r bws â ni lle roedd Dafydd yn aros amdanon ni'n amyneddgar iawn. Diolch iddo fe am ei gymwynas fawr yn rhoi o'i amser i fynd â ni ar ein trip blynyddol. Doedden ni ddim yn sylweddoli pa mor 'we-lythrennog' oedd Eirlys – roedd wedi bod yn brysur yn pori ac yn 'syrffio' i baratoi hanes Cas-gwent ar ein cyfer a chlywsom ffrwyth ei llafur ar y bws cyn cychwyn am y dref hanesyddol honno i dreulio ychydig o oriau'n hamddena yno yn heulwen twym mis Mai. Roedd ambell un fwy heini ac anturus na'i gilydd ac wedi cerdded draw at furddun y castell, ambell un yn gwario ar ddilledyn neu blanhigion i'r ardd a'r mwyafrif yn mwynhau edrych yn ffenestri'r siopau. Ac wrth gwrs, roedd rhaid cael tamaid i'w fwyta. Tŷ bwyta 'Mama Mia' yw'r lle am bryd Eidalaidd hyfryd ac 'insalata Mama Mia' a'r 'tiramisu' oedd yn boblogaidd iawn ymhlith merched Bethlehem. O gwmpas y bwrdd, daeth y syniad o sefydlu clwb cinio Bethlehem i gwrdd bob hyn a hyn i gymdeithasu â'n gilydd dros bryd o fwyd. Y gobaith yw y bydd hwn yn tyfu'n ddigwyddiad rheolaidd.



Cawsom ddiwrnod hyfryd a diolch i Eirlys a Cath am ei drefnu. Yn anffodus, doedd Cath ddim yn teimlo'n rhy hwylus y bore hwnnw a methodd â dod gyda ni ac roedden ni gyd yn colli ei chwmni ac yn meddwl amdani.

Nôl â ni at Dafydd i'r bws, dim amser i ail-alw am goffi yng ngwesty'r Coldra yng Nghasnewydd a chyrraedd Radyr yn ddiogel wedi cael diwrnod pleserus iawn.

[Margaret Roberts]

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

**BEDYDD**



**Megan Alys, merch fach Gwenan a Huw Thomas, yn ystod ei gwasanaeth bedydd ym mis Mai**

### Cydymdeimlwn fel eglwys â'r aelodau canlynol:

***Mary Slade,*** *Yr Eglwys Newydd* ***Heather Watts***, Llandaf – y ddwy wedi colli eu tadau'n ddiweddar.
***R. Alun Evans*** – wedi colli cyfnither.

~~~~~~~

### Llongyfarchiadau i'r canlynol am gael eu derbyn i'r Orsedd:

Sioned Angharad Wyn, Yr Eglwys Newydd, (Urdd Llenor) ac Annwen Ebenezer Ellis, Gwaelod y Garth (Urdd Cerddor).



## Suliau – Gorff hyd y Nadolig

**GORFFENNAF**
6 Parch. Dafydd Andrew Jones
13 Gweinidog (Bedydd, Cadarnhau Diaconiaid a Chymun
20 Ysgol Plasmawr
27 Gweinidog

**AWST**
3 **Cymun** – Tabernacl, Efail Isaf (10.45)
10 Parch. Gerald Jones –Bethlehem
17 Tabernacl, Efail Isaf (10.45)
24 Bethlehem –dan ofal yr aelodau
31 Tabernacl, Efail Isaf (10.45)

**MEDI 2008**
7 Parch. Dafydd Owen
14 Y Gweinidog (Cymun)
21 Parchg. Tom Defis
28 Y Gweinidog

**HYDREF 2008**
5 Parch. Lona Roberts
12 Y Gweinidog (Cymun)
19 Cwrdd Diolch – Dr Neville Evans a'r Plant
26 Y Gweinidog

**TACHWEDD**
2l Parch. D.Haydn Thomas
9 Y Gweinidog (Cymun)
16 Gwasanaeth Ardal -- Radur
23 Y Gweinidog
30 Parch. Alan Pickard

**RHAGFYR**
7 Bore –Ymweld â chartref henoed Hwyr – Naw Llith â Charol
14 Y Gweinidog (Cymun)
21 Gwasanaeth Nadolig y Plant
25 Gwasanaeth Bore Nadolig
28 Y Gweinidog

Os ydy un llun yn werth mil o eiriau, dyma i chi 4000 gair am wasanaeth sefydlu'n Gweinidog, Y Parchedig Ddr. R. Alun Evans, ar bnawn Sadwrn, Ebrill 19:





***Cwrdd sefydlu Alun***



***APÊL TRYCHINEB BURMA***

*Mae Bethlehem wedi anfon £1000 drwy Gymorth Cristnogol at gronfa'r drychineb uchod. Os hoffech roi arian tuag at gyfraniad Bethlehem, gallwch ei roi mewn amlen ag 'Apêl Burma' arni yn y casgliad, neu ei bostio at Peredur yn 23 Alfreda Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 2EH. Sieciau'n daladwy i 'Eglwys Bethlehem'.*